

# Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Ofal Hosbis a Gofal Lliniarol

## Cofnodion

5 Tachwedd 2025

Yn bresennol:

|                                                                   |                                                                                          |
|-------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------|
| Mark Isherwood AS (Cadeirydd)                                     | Peter Fox AS                                                                             |
| Margaret Hollings, Hosbis Dewi Sant                               | Andrea Powell, Gofal Galar Cruse                                                         |
| Matthew Brindley, Hospice UK (Ysgrifennydd)                       | Liz Booyse, Hosbis y Ddinas                                                              |
| Grant Usmar, Hosbis y Cymoedd                                     | Andy Goldsmith, Tŷ Gobaith                                                               |
| Dr Victoria Wheatley, Ymgynghorydd Gofal Lliniarol, BIP Hywel Dda | Carol Davies, Cymdeithas Clefyd Huntington                                               |
| Ceridwen Hughes, Same but Different                               | Dr. Gwenllian (Gwen) Davies, Ymgynghorydd Gofal Lliniarol, BIP Bae Abertawe              |
| Harriet Redington, Hospice UK                                     | Dr Idris Baker, Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes |
| Laura Hugman, Paul Sartori, Hosbis yn y Cartref                   | Lauren Emberton, Hosbis Tŷ'r Eos                                                         |
| Tracy Jones, Tŷ Hafan                                             | Dr Sarah Davies, Meddyg Ymgynghorol, BIPBC                                               |
| Natasha Davies, Marie Curie                                       | Tomos Evans, Marie Curie                                                                 |
| Oscar Din, , Pancreatic Cancer UK                                 |                                                                                          |

Ymddiheuriadau:

|                                              |                 |
|----------------------------------------------|-----------------|
| Emma Saysell, Gofal Hosbis Dewi Sant         | Sam Rowlands AS |
| Darren Rutland, Cymdeithas Clefyd Huntington |                 |

## Croeso, cyflwyniadau, ac ymddiheuriadau

Croesawodd **Marc Isherwood** aelodau a siaradwyr i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol yn trafod:

- Yr arddangosfa 'Dying to be Heard' sy'n crisialu profiadau o ofal diwedd oes ac yn hyrwyddo sgysiau gonest ac agored
- Diweddariad ar waith y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes
- Goblygiadau'r Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) i Gymru



## Cofnodion y cyfarfod blaenorol; materion yn codi

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol gan Andrea Powell ac eiliwyd gan Sarah Davies.

## Arddangosfa 'Dying to be Heard'

Croesawodd **Marc Isherwood** Ceridwen Hughes o Same but Different a'u gwaith creadigol sy'n canolbwyntio ar gofnodi profiadau gofal diwedd oes a hyrwyddo sgysiau gonest ac agored. Nododd Mark ei bod bron i ddwy flynedd ers iddo noddi lansiad yr arddangosfa 'Beth Sydd Bwysicaf?' yn y Senedd, ac roedd yn wych gweld bod y gwaith hwn wedi parhau a datblygu.

Gweler sleidiau Ceri isod:





#### Dying to get there - Rurality

Carer to patient with prostate cancer

"It would take 1 1/2 hours to get there and the same back. When I look back, I don't know how I did it because I'm not a terribly confident driver, but you do it, just because you have to. I had to make that journey every single day for six weeks".



#### Best laid plans - End of life care planning

Patient with ocular melanoma

"For me, knowing that that is all organised, and I know what's going to happen, and I don't have to think about it so much anymore, I can then push it away a little bit. And I know, when I do become weaker, that there are people that can help with equipment. I know exactly where the hospice is. I know what's going to happen. In some ways, that is really scary but in other ways that is really comforting, because I know that the burden isn't going to fall on everyone around me".



#### Broken - A good death



Several patients and carers explained that at times it felt relentless when trying to contact people for help. Whether it is calling to find a way to access pain relief or simply to make an appointment "the system feels broken".



#### Last Orders - Conversations around Dying

Patient with ocular melanoma

"It's difficult for me because I don't look unwell. Sometimes I feel like it's not actually happening to me, it's kind of surreal. So, I think it's such an awful thing to think about, hey my daughter my partner, my friend is going to die and death is such a taboo topic anyway, that we all avoid it. But there are ways of dealing with it and I think when they see that I'm comfortable talking about it makes them a bit more comfortable discussing it too".



Disgrifiodd **Ceri** yr effaith enfawr mae marwolaeth anwylyd yn ei chael ar deulu a ffrindiau a sut mae angen cofnodi a deall eu profiadau'n iawn.

Roedd y prosiect pilot 'Beth Sydd Bwysicaf?' yn gam cyntaf tuag at wneud hyn ac arweiniodd at greu'r prosiect 'Dying To Be Heard' presennol a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae'r prosiect yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phrifysgol Bangor. Mae'n defnyddio delweddau i ysgogi ymatebion i gwestiynau ynghylch sut mae gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn cael eu darparu, gan ganolbwyntio ar y claf.

Mae rhai o'r themâu allweddol y mae'r prosiect wedi canolbwyntio arnynt yn cynnwys ardaloedd gwledig, cynllunio, marwolaeth dda, materion cymdeithasol, a chymuned. Wrth symud ymlaen, y bwriad yw casglu mwy o brofiadau gan leisiau a chymunedau amrywiol, gyda ffocws ar anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal lliniarol a gofal diwedd oes.

### Cwestiynau a thrafodaeth

Diolchodd **Marc** i Ceri am ei chyflwyniad a dywedodd y byddai'r grŵp yn helpu i rannu'r prosiect.

Gofynnodd **Dr Sarah Davies** a **Dr Gwen Davies** a oedd elfen Gymraeg i'r prosiect ac awgrymodd y dylai'r grŵp trawsbleidiol gynnwys [Cerdd a fideo Cymraeg](#) gan Tudur Hallam.

Dywedodd **Ceri** fod cynnwys iaith Gymraeg yn rhan o'r prosiect a'u bod nhw bob amser â diddordeb mewn estyn allan i glywed profiadau pobl.

Diolchodd **Liz Booyse**, **Tracy Jones** ac eraill i Ceri am rannu'r hyn a oedd yn eu barn nhw yn waith dewr iawn a gwaith sy'n hardd yn weledol hefyd.



## Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes

Rhoddodd **Dr Idris Baker** grynodedb o ddogfennau allweddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes:

- [Manyleb Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Cymru: Gwasanaethau Gofal Lliniarol a Diwedd Oes](#), sy'n sefydlu safonau clir ar gyfer darparu'r gofal teg, o ansawdd uchel, ac sy'n canolbwyntio ar y person y gall cleifion, eu teuluoedd, a gofalwyr di-dâl ddisgwyl yn rhesymol ei dderbyn.
- [Fframwaith Cymhwysedd Cymru Gyfan ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes i Oedolion](#), sy'n amlinellu'r cymhwyseddau craidd a ddisgwylir i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â darparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes (PEoLC) i oedolion meddu arnynt. Mae'n gweithredu fel canllaw i unigolion, timau, rheolwyr, addysgwyr a sefydliadau i ddeall a bodloni'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer gofal diogel, effeithiol, ac sy'n canolbwyntio ar y person.
- [Canllawiau cenedlaethol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi cael profedigaeth yng Nghymru](#), sy'n darparu fframwaith clir i Fyrdau Iechyd Lleol a phartneriaid amlasiantaeth i ddylunio llwybrau cymorth rhanbarthol sy'n dosturiol, yn gynhwysol, ac yn briodol o ran datblygiad.

Dywedodd **Idris** fod grŵp rhanddeiliaid yn cael ei ffurfio i lywio'r gwaith o gyflwyno'r canllawiau cenedlaethol i gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi cael profedigaeth. Disgrifiodd hefyd y gwaith parhaus i roi ar waith y Fanyleb Gwasanaeth newydd, sy'n canolbwyntio ar ddeall sefyllfa'r Byrdau Iechyd ac eraill o ran bodloni safonau. Tynnodd sylw hefyd at y cyfyngiadau capasiti sy'n wynebu Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn a nododd ei fod yn gobeithio bydd ganddynt fwy o gapasiti wrth symud ymlaen.

### Cwestiynau a thrafodaeth

Diolchodd **Mark Isherwood** i Idris am ei gyflwyniad.

Gofynnodd **Tracy Jones** sut mae Byrdau Iechyd yn cael eu dwyn i gyfrif o ran cyflawni yn erbyn y Fanyleb Gwasanaeth ar gyfer pediatreg. Atebodd **Idris** fod Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol yn gweithio ar hyn.

Gofynnodd **Natasha Davies** a oes Fframwaith Mesur ac Asesu ar gyfer y Fanyleb Gwasanaeth. Dywedodd **Idris** y byddent yn datblygu un yn ystod y misoedd nesaf.

Gofynnodd **Marc Isherwood** pa ddisgwyliadau y mae'r Fanyleb Gwasanaeth yn eu gosod ar hosbisau o ystyried yr heriau sylweddol y maent yn eu hwynebu a chyd-destun ehangach marw â chymorth. Dywedodd **Idris** fod gwaith comisiynu'r hosbisau yn ganolog i'r gwaith hwn a bod cyflawni'r Fanyleb Gwasanaeth yn rhan o fynd i'r afael â'r pwysau sy'n wynebu

hosbisau. Y flaenoriaeth yw cael gofal lliniarol a diwedd oes yn iawn a lleihau anghydraddoldebau gofal.

Dywedodd **Liz Booyse** fod hosbisau yn hanfodol ar gyfer darparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes yng Nghymru a chyflawni amcanion y Fanyleb Gwasanaeth.

## Goblygiadau'r Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) i Gymru

Croesawodd **Marc Isherwood** Dr Victoria Wheatley a chydabu'r ystod eang o wybodaeth ac arbenigedd yn yr ystafell ac anogodd bawb i gyfrannu at y drafodaeth.

Gweler sleidiau Victoria isod:

### Implications for Wales of the Terminally Ill Adults (End of Life) Bill

Dr. Victoria Wheatley, Palliative Medicine Consultant  
Senedd GTB Hosbis a Gofal Lliniarol / CPG Hospice + Palliative Care  
05/11/2025

This Bill does not address problems of ...

- Suffering
  - Many will be ineligible
  - Duty to die + societal changes will introduce new suffering
- Choice / Autonomy
  - Vast majority of terminally ill people want to live
  - Alternative of high quality care not available
- Suicide
  - Increased non-medical suicide

Patient story ...

This Bill will fundamentally change healthcare

- 1% doctors likely to actively participate
- Large numbers eligible
  - 2024: 68% of 237,602 people who died may have been eligible
- Last Year of Life Population Dashboard - Power BI (accessed 03/11/25)
- Professionals obliged to discuss all potential treatment options
  - Benefits, risks, alternatives, option of doing nothing
- Impact on professionals + patients
  - Emotional distress, time needed, power imbalance

This Bill is constitutionally complex

- 42 delegated powers including...
  - 38 regulation making powers,
  - 7 Henry VIII powers
- Clause 42(1) may require Welsh Ministers to make provision for Voluntary Assisted Dying Services
- Clause 42(3) enables SoS Justice to make provision for Voluntary Assisted Dying Services in Wales
- LCM vote ... amendments to Bill



HOUSE OF LORDS  
Delegated Powers and Regulatory Reform Committee  
22nd Report of Session 2024-25  
**Terminally Ill Adults (End of Life) Bill**

Other problems with this Bill

- No mechanism to appeal approval of request for assisted suicide
- No guarantee of peaceful dignified death
- Death at home not practical
- Less scrutiny of these deaths

Pwyntiau allweddol a amlygwyd gan Victoria yn ei chyflwyniad:

- Ni fydd pawb yn gymwys i farw â chymorth a gall disgwyliadau cymdeithasol newydd gynyddu dioddefaint o ran y disgwyliad/dyletswydd i farw.

- Nid yw'r Bil yn hyrwyddo dewis ac mae'n cael ei gyflwyno ar adeg pan fo mynediad at Ofal Lliniarol Arbenigol (SPC) yn anghyson, gyda chwarter o'r wlad heb fynediad at welyau SPC.
- Mae'r Bil yn mynd yn groes i ymdrechion atal hunanladdiad ac mae'n peri risg o gynyddu niferoedd hunanladdiadau anfeddygol
- Stori claf, yn disgrifio person oedd eisiau marw pan nad oedd ganddo fynediad at ofal lliniarol priodol ond a newidiodd ei safbwynt o fewn 48 awr o dderbyn gofal lliniarol
- Dim ond 1% o feddygon sy'n debygol o gymryd rhan mewn gwasanaeth marw â chymorth, tra ar yr un pryd gallai'r niferoedd sy'n gymwys fod yn sylweddol.
- Perygl y bydd yn rhaid i sgysiau am opsiynau marw â chymorth gyda chleifion ddigwydd hyd yn oed os yw'r Bil yn dweud nad oes rhaid i feddygon wneud hynny.

### **Cwestiynau a thrafodaeth**

Diolchodd **Marc Isherwood** i Victoria am ei chyflwyniad a gofynnodd o ble ddaeth y ffigur mai dim ond 1% o feddygon sy'n debygol o gymryd rhan mewn marw â chymorth, ac a oedd ffigur tebyg ar gyfer Cymru. Dywedodd **Victoria** bod y ffigur yn seiliedig ar ddata mewn gwledydd eraill lle cyflwynwyd marw â chymorth ac nad oedd ffigur penodol i Gymru ar gael.

Tynnodd **Dr Gwenllian Davies** sylw at bryderon ynghylch darpariaeth iaith Gymraeg yn y Bil a gofynnodd a fyddai digon o gefnogaeth/staff i gael y sgysiau hyn yn y Gymraeg. Dywedodd ei bod hin teimlo bod angen llais Cymreig penodol o Hospice UK, a bod yna faterion ar wahân sydd ddim yn cael eu cynrychioli, a bod angen cymal optio allan/i mewn.

Dywedodd **Dr Idris Baker**, o safbwynt Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes, y byddent yn pryderu pe bai cyflwyno marw â chymorth yn digwydd cyn gwaith brys ac angenrheidiol i wella mynediad at ofal lliniarol a diwedd oes yng Nghymru. Gallai hyn gynyddu pob math o beryglon sydd eisoes yn bodoli i bobl sy'n methu â chael mynediad at ofal. Dywedodd hefyd nad oedd Hospice UK yn gwneud digon o sŵn ynglŷn ag optio allan/i mewn, a bod rhwystredigaeth eang yn sgil 'y farn niwtral'.

Gofynnodd **Laura Hugman** beth ddylai darparwyr rheng flaen ei wneud. Dywedodd **Ceridwen Hughes** y dylai Marie Curie a Hospice UK fod yn gwneud mwy. Awgrymodd **Margaret Hollings** y dylai Hosbisau Cymru goladu adroddiad ar ddata arolwg a meddyliau pellach o bob cwr o Gymru.

Dywedodd **Dr Victoria Wheatley** fod y rhai oedd yn ymgyrchu dros farw â chymorth â llawer gwell adnoddau na meddygon a bod angen i fwy o sefydliadau dweud eu dweud os oeddent yn teimlo'n gryf am y mater.

Dywedodd **Matthew Brindley** fod Hospice UK yn gweithio gyda'i aelodau hosbis i fynd i'r afael â phryderon neu broblemau o ran y Bil ac yn cymryd rhan weithredol mewn cynrychioli buddiannau hosbis a gofal lliniarol yn San Steffan a Chymru, ond y bydd yn edrych ar beth arall y gellir ei wneud yng Nghymru yn benodol. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y llwybr Bil Aelod preifat ar gyfer y Bil hwn wedi arwain at fwy o gwestiynau nag atebion, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r manylion ynghylch sut y byddai'n cael ei gyflwyno wedi'u dirprwyo i'r

Ysgrifennydd Gwladol. Dywedodd fod Prif Swyddog Gweithredol Hospice UK, Toby Porter, yn bwriadu ymuno â chyfarfod Hosbisau Cymru y diwrnod wedyn ac y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn trafod materion a godwyd yn fanylach gydag aelodau hosbis ac eraill.

Dywedodd **Liz Booyse** y byddai Hosbisau Cymru yn edrych ar yr hyn y gallent wneud gydag aelodau hosbis i fynd i'r afael â phryderon/problemau o ran marw â chymorth.

Croesawodd **Marc Isherwood** Peter Fox AS, Cadeirydd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd, i siarad am ei waith ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes).

Rhoddodd **Peter Fox** grynodedb o'r casgliadau a'r argymhellion allweddol gan adroddiad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd [ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl \(Diwedd Oes\)](#).

Mynegodd **Dr Victoria Wheatley** a **Dr Gwenllïan Davies** rwystredigaeth nad oedd y pwyllgor wedi derbyn llawer o dystiolaeth ganddynt, oherwydd mai dim ond cyflwyniadau gan ychydig o fyrdau iechyd oedd yn y dystiolaeth a gasglwyd gan y GIG, felly penderfynwyd nad oedd yn gynrychioliadol ac ni chafodd ei hanfon at y pwyllgor.

Anogodd **Peter Fox** a **Marc Isherwood** aelodau i rannu dystiolaeth gyda nhw cyn y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Gofynnodd **Natasha Davies** pam fod gan y cynnig cydsyniad deddfwriaethol gwmpas mor gyfyngedig ac a oedd cyfle i'w ehangu. Gofynnodd **Dr Sarah Davies** sut y gellid trafod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn briodol pan fo'r Arglwyddi'n dal i wneud gwelliannau.

Dywedodd **Peter Fox** y byddai'n anodd newid safbwynt Llywodraeth Cymru ar gwmpas y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar hyn o bryd ac nad oedd yn siŵr o'r amseru ar gyfer pleidlais yn y Senedd o ystyried yr hyn sy'n digwydd yn Nhŷ'r Arglwyddi, ac y gallai hyn newid.

Awgrymodd **Marc Isherwood** y dylai'r grŵp trawsbleidiol ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i godi'r materion allweddol ynghylch marw â chymorth a amlygwyd yn y cyflwyniadau a'r drafodaeth. Awgrymodd hefyd y gallai'r grŵp gyhoeddi datganiad i'r wasg.

## Unrhyw fater arall

### Dyddiad y cyfarfod nesaf a chloi'r cyfarfod

Diolchodd Mark Isherwood i bawb am ymuno â chyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol a dywedodd byddai dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei benderfynu a'i rannu.



